

# Deall Bwriadau Busnes Ffermwyr Cig Eidion a Chig Oen yng Nghymru – *cam 3*

Ym mis Medi 2022, cynhaliodd HCC gam cyntaf *Arolwg Bwriadau Ffermwyr* i ddeall sut roedd ffermwyr ledled Cymru yn ymateb i'r heriau a oedd yn deillio o gostau mewnbwn uwch. Ailadroddwyd yr *Arolwg* ym mis Medi 2023 ac eto ym mis Medi 2024 i asesu heriau parhaus a chasglu mewnwelediad i gynlluniau busnes y dyfodol, gan helpu i arwain trafodaethau yn y dyfodol.


## CEFNDIR

- Cyrhaeddodd costau mewnbwn fferm uchafbwynt sylweddol yn 2022, yn bennaf oherwydd y gwrthdaro rhwng Rwsia a'r Wcrain, a effeithiodd ar benderfyniadau ar y fferm.
- Mae Mynegai Prisiau Amaethyddol (API) y DU ar gyfer mis Gorffennaf yn awgrymu bod **costau cyffredinol mewnbwnau amaethyddol ar eu isaf ers mis Rhagfyr 2021**.
- Gyda chostau mewnbwn yn fwy sefydlog, gall hyn ddylanwadu ar fwy o hyder gan ffermwyr o fewn y sector.
- Derbyniodd HCC **270 o ymatebion arolwg** yn ystod Cam 3, yn cwmpasu pob rhan o Gymru.
- Edrychodd y dadansoddiad ar fwriadau o ran cyfradd stocio, y rhesymau y tu ôl i benderfyniadau busnes, a'r defnydd o fewnbwnau amaethyddol.

## CANFYDDIADAU ALLWEDDOL – Cynhyrchwyr Cig Oen

- ❖ Roedd llai o gynhyrchwyr yn bwriadu gostwng eu cyfraddau stocio o gymharu â Cham 1 a 2 o'r arolwg – nid oedd gan 49% unrhyw gynlluniau i newid cyfraddau stocio, a dim ond 22% oedd yn bwriadu lleihau (o gymharu â 25% yng Ngham 2, a 43% yng Ngham 1).
- ❖ Mae costau mewnbwn amaethyddol & enillion annigonol o'r farchnad yn parhau i ddylanwadu ar fwriadau i leihau cyfraddau stocio – er bod ansicrwydd ynghylch newidiadau i gynlluniau cymorth ffermio yn cael mwy o effaith.
- ❖ Roedd cynhyrchwyr cig oen yn bwriadu gostwng cyfraddau stocio trwy gynyddu cyfraddau difa, a chael llai o ddefaid cyfnewid.
- ❖ Dywedodd y rhai sy'n bwriadu cynyddu cyfraddau stocio taw optimistiaeth yn y farchnad sy'n ysgogi'r newid hwn.


Bwriadau Cyfradd Stocio Cynhyrchwyr Cig Oen (*cam 3*)



## CANFYDDIADAU ALLWEDDOL – Cynhyrchwyr Cig Eidion

- ❖ Awgrymodd 43% o gynhyrchwyr nad oedd ganddynt unrhyw gynlluniau i newid niferoedd da byw cig eidion dros y 12 mis nesaf.
- ❖ Roedd 28% yn bwriadu lleihau niferoedd rhywfaint – gostyngiad o'i gymharu â'r 34% yng Ngham 2, a 47% yng Ngham 1.
- ❖ Ansicrwydd ynghylch newidiadau i reoliadau amgylcheddol & chynlluniau cymorth ffermio oedd y ddau brif ffactor a oedd yn dylanwadu ar benderfyniadau i leihau niferoedd ar gyfer 45% o ymatebwyr – ynghyd â chostau mewnbwn fferm uwch.
- ❖ Roedd cynhyrchwyr cig eidion *ychydig* yn fwy tebygol o leihau niferoedd stock o gymharu â chynhyrchwyr cig oen.
- ❖ Dywedodd cyfanswm o 29% o gynhyrchwyr eu bod yn bwriadu cynyddu cyfraddau stocio, o gymharu â 19% yng Ngham 2, a 13% yng Ngham 1.

Bwriadau Cyfradd Stocio Cynhyrchwyr Cig Eidion (cam 3)



## CANFYDDIADAU ALLWEDDOL – Mewnbynnau Amaethyddol

- ❖ Dwysfwydydd: roedd 28% yn bwriadu defnyddio llai, tra bod bron 70% yn bwriadu defnyddio'r un faint.
- ❖ Porthiant: mae'r mwyafrif yn bwriadu gwneud dim newidiadau i'w defnydd yn y flwyddyn i ddod.
- ❖ Gwrtait nitrogen wedi'i weithgynhyrchu: mae 28% yn bwriadu lleihau'r defnydd, tra bod tua hanner yn bwriadu peidio â gwneud unrhyw newidiadau.
- ❖ Gwasarn: mae dros 70% yn bwriadu defnyddio'r un faint, tra hoffai 18% ostwng.

### CANLYNIADAU

- Mae mwyafrif y cynhyrchwyr (47%) yn bwriadu **cadw eu cyfraddau stocio yr un fath** dros y 12 mis nesaf.
- Fodd bynnag, mae **cyfran gynyddol yn bwriadu cynyddu nifer eu da byw** o gymharu â Chamau 1 a 2 o'r Arolwg – mae bron i 30% o gynhyrchwyr bellach yn bwriadu cynyddu niferoedd da byw, i fyny o ddim ond 14% yng Ngham 1.
- Nododd llawer o gynhyrchwyr fod **heriau tywydd** diweddar wedi gwneud ffermio'n anodd.
- Mae ansicrwydd parhaus o fewn y diwydiant yn rhoi pwysau ar fusnesau ffermio, gan amlygu'r **angen am fwy o eglurder** i ffermwyr yng Nghymru.
- Cynhaliwyd yr Arolwg ym mis Medi, cyn **cyhoeddiad cyllideb yr Hydref** ar 30 Hydref, a fydd yn debygol o ddylanwadu ymhellach ar fwradau busnes ffermwyr.

**Cyrhaeddodd Cam 3 Arolwg Bwriadau Ffermwyr 270 o ffermwyr defaid a chig eidion ar draws Cymru:**



**Cyfyngiadau** - Mae cyfyngiadau o ran y dadansoddiad hwn gan fod yr arolwg yn dibynnu ar wybodaeth hunan-adroddedig am fwradau'r gorffennol a'r dyfodol. Dylid deall bod y dadansoddiad hwn yn rhoi syniad, yn hytrach na disgrifiad pendant, o gamau gweithredu a bwriadau cynhyrchwyr cig eidion a chig oen yng Nghymru.